# CRONFA GWYNT Y MÔR

ARIANNWYD GAN GWYNT Y MÔR • FUNDED BY GWYNT Y MÔR

## EGLWYS BLWYF LLANELWY

Mae gan Llanelwy ganolfan cymunedol nawr! Derbyniodd Eglwys Blwyf Llanelwy £34,000 ar gyfer gwaith adnewyddu fel bod modd cynnal digwyddiadau cymunedol, fyddai'n addas ar gyfer unigolion o bob oed, yn ogystal ag gweithredu fel Eglwys Blwyf.

Galluogodd y gronfa iddynt osod dau foeler, gwresogi dan y llawr, a rheiddiaduron.

Dywed y Ficer Rev Rex Matthias "Mae'r eglwys wedi ei drawsnewid ac edrychwn ymlaen at groesawu'r gymuned i'r adeilad a'r cyfleuster hardd hwn pan fydd yn ddiogel i wneud hynny".





## SAFE


SAFE

BUILD YOUR CONFIDENCE AND GROW YOUR RESILIENCE WITH SAFE

Gyda'r £9,781 derbyniodd SAFE darparwyd 6 wythnos o gyrsiau yn cefnogi pobl i ddatblygu strategaethau ymdopi ar gyfer gwell iechyd meddwl, datblygu gwydnwch emosiynol, a delio gyda byw yn fwy rhesymegol. Yn ystod y chwe wythnos o gyrsiau, mae 5 unigolyn wedi "magu eu hyder yn aruthrol" o prin yn siarad i roi adborth amhrisiadwy yn ogystal â gwneud pethau nad oeddent yn gyfforddus i'w gwneud o'r blaen gan drosglwyddo sgiliau a ddysgwyd i'w bywydau o ddydd i ddydd.

## AGE CONNECT
## CANOL GOGLEDD CYMRU

Derbyniodd Age Connect £3,334.06 ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu cylchlythyrau misol yn bennaf ar gyfer pobl hŷn, ac yn enwedig ar gyfer pobl sydd heb cyfleusterau digidol. Yn y cylchlythyrau hyn roedd gwybodaeth a manylion cyswllt cymorth, cynnwys hwylus i godi calon a chynnwys gan y bobl hŷn a sefydliadau partneriaid lleol. Mae'r cylchlythyrau yn cyrraedd dros 1600 o unigolion a dros 500 o sefydliadau ac felly yn ymgysylltu ac yn lledeunu gwybodaeth ddefnyddiol i gynulleidfa eang gan sicrhau bod aelodau'n teimlo'n gysylltiedig ac yn llai ynysig.




Chwerfor 2021 www.gwyntymorfund.cymru @gwyntymor @gwyntymorCF